

CYNLLUN IAITH GYMRAEG



Gorffennaf 2019

Cynnwys

TUDALEN

3	Cyflwyniad	
4	Ynglŷn â Cymwysterau Cymru	
7	Datganiad ymrwymiad	
8	Trosolwg o'r Cynllun	
8	Y Cynllun	
8	Darparu gwasanaeth	Gohebiaeth ysgrifenedig Galwyr ffôn Ymwelwyr â'r dderbynfa Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus Cyhoeddusrwydd, cyhoeddiadau a ffurflenni a hysbysiadau cyhoeddus Cyfryngau cymdeithasol Gwefan Cymwysterau Cymru Hunaniaeth gorfforaethol
12	Llunio polisiau	Polisiau corfforaethol Polisi rheoleiddiol Ymchwil
15	Gweithrediadau mewnol	Recriwtio staff Arferion penodi a chyflogi Adnoddau Dynol Hyfforddiant a sgiliau Cyfleusterau Technoleg gwybodaeth Caffael a chontractau Grantiau
18	Gweinyddu a monitro'r Cynllun	Monitro Trefniadau mewnol Adolygu'r Cynllun Cwynion

Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru yn sefydliad dwyieithog sy'n cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Sefydlodd Deddf Iaith Gymraeg 1993 y gofyniad i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Dilynwyd hyn yn 2011 gyda Mesur y Gymraeg (Cymru) yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac yn cyflwyno cyfres o ofynion sy'n gyfrwymol yn gyfreithiol, neu Safonau'r Gymraeg. Cyflwynodd y Mesur yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru yn 2015 ac nid oes unrhyw ofynion statudol yn gymwys i ni hyd yma, er rydym yn disgwyl bod yn rhan o'r gyfundrefn safonau ymhen amser. Fodd bynnag, fel sefydliad rydym yn ymrwymo i'n cyfrifoldebau fel corff cyhoeddus ac rydym yn gwbl ymrwymedig i ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg ('y Cynllun') ar sail wirfoddol. Mae'r Cynllun hwn yn egluro sut y bydd Cymwysterau Cymru yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg fel rhan o'n busnes o ddydd i ddydd.

Y Cynllun hwn yw canlyniad cydweithio llawn â phob maes ym mhob rhan o'r sefydliad. Ers sefydlu Cymwysterau Cymru, rydym wedi meithrin ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg a phenderfyniad i wneud y gweithle yn amgylchedd dwyieithog cyfforddus a chefnogol, heb rwystrau iaith. Mae hwn yn sefydliad cadarnhaol lle mae dysgu, bod yn ystyriol a chydweithio yn rhan o'r diwylliant ac mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o'r ffordd rydym yn gweithio.

Fel rheoleiddiwr, rydym yn darparu gwasanaethau i sefydliadau gan amlaf, yn hytrach na'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym wedi datblygu Cynllun sy'n pennu safon rydym yn gobeithio y bydd yn dylanwadu ar y bobl rydym yn gweithio gyda nhw'n rheolaidd.

Yn ôl y ddeddfwriaeth a greodd Cymwysterau Cymru, mae'n ofynnol i ni ystyried wyth mater wrth ystyried sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Un o'r materion hyn yw "dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg". Rydym eisoes yn cyflawni llawer o'r ymrwymadau a restrir yn ein cynllun fel mater o drefn. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen cynnal ein ffocws ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi ein staff wrth roi'r cynllun hwn ar waith.

Philip Blaker, Prif Swyddog Gweithredol

Ynglŷn â Cymwysterau Cymru

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn gorff annibynnol sy'n canolbwyntio ar gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, gan gynnwys cymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol.

Nid yw graddau yn rhan o'n gwaith, ond rydym yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau er mwyn sicrhau eu bod yn deall cymwysterau er mwyn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch. Rydym yn sicrhau bod y cymwysterau gorau yn cael eu cynnig i ddysgwyr, athrawon a chyflogwyr, ac yn helpu pobl i addasu mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Rydym hefyd yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu i ymestyn y cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys darparu cyllid grant. Yn hyn o beth, rydym yn cydnabod rôl ehangach Cymwysterau Cymru i gefnogi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn ffynnu, gyda miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod hwn yn darged uchelgeisiol ac y bydd angen rhoi newidiadau pellgyrhaeddol ar waith, gan gynnwys cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg ac yn dilyn addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol, a fydd yn cynyddu'r gofynion i sicrhau bod cymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru (2015), mae gennym ddau brif nod:

1. *Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;*
2. *Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.*

Mae dysgwyr wrth wraidd ein gweithgareddau, ac rydym hefyd yn gyfrifol am edrych dros y system gymwysterau er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio er budd dysgwyr, a gweithredu neu gynghori eraill i wneud hynny os oes angen. Rhan o'n gwaith yw sicrhau bod cymwysterau o fewn y system yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn sicr a'u bod yn cael eu parchu'n rhyngwladol. Mae gennym bwerau a dyletswyddau i reoleiddio cyrff dyfarnu a gallwn wneud ymyriadau cadarnhaol i sicrhau gwelliannau i gymwysterau neu'r system gymwysterau.

Yn Cymwysterau Cymru, rydym yn diogelu gwerth cymwysterau, gan sicrhau y cynhelir safonau ac y dyfernir graddau yn deg, a bod cymwysterau yn parhau i gael eu datblygu wrth i anghenion dysgwyr newid.

Fel yr arbenigwyr yr ymddiriedir ynddynt ym maes cymwysterau, rydym yn ystyried anghenion cyflogwyr, y sector addysg uwch a'r proffesiynau, ac yn rhoi cyngor i Weinidogion Llywodraeth Cymru ar faterion perthnasol.

Ein dull gweithio

Rydym yn edrych tuag at allan, felly rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithredu er mwyn atgyfnerthu ein gallu i roi hwb i hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau yng Nghymru ac i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Rydym yn disgrifio ein dull rheoleiddio yn Strategaeth Cymwysterau Cymru fel a ganlyn:

- Rydym yn gwahodd dysgwyr i roi eu safbwyntiau, yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt.
- Rydym yn gwrando ar adborth, safbwyntiau a phryderon rhanddeiliaid ac yn ymateb iddynt yn briodol.
- Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gymesur ag effaith bosibl y camau gweithredu rheoleiddio.
- Mae ymgynghoriadau yn dryloyw ac ystyrlon.
- Rydym yn cydweithredu ac yn defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid fel sy'n briodol.
- Rydym yn ceisio meithrin a chynnal cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid allweddol.
- Mae ein gwaith cyfathrebu'n glir, yn amserol, yn llawn gwybodaeth ac wedi'i dargedu; rydym yn adolygu effaith ein dull cyfathrebu ac yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wella'r ffordd rydym yn gwneud hynny.
- Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill lle bynnag y bo'n bosibl, gan ystyried yr effaith ar gyrrff dyfarnu a reoleiddir gan fwy nag un rheoleidiwr.
- Rydym yn cynnal asesiadau effaith rheoleiddio os ydynt yn briodol er mwyn asesu'r gost, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pholisi neu gam gweithredu.

Mae ein gwerthoedd yn sail i'n gwaith:

- Cydweithredol o ran ein ffordd o weithio
- Ystyriol o ran ein dulliau gweithredu
- Cadarnhaol o ran ein hagwedd
- Dysgu o brofiad a chan eraill

Bydd ein diben wedi'i gyflawni pan fydd dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg yn ymddiried mewn cymwysterau rheoleiddiedig yr astudir ar eu cyfer yng Nghymru ac yn eu gwerthfawrogi, a phan fydd y cymwysterau hynny yn cael eu cydnabod ledled y DU ac yn rhyngwladol. Hon yw ein gweledigaeth gyffredinol, a wireddir pan gyflawnir ein hamcanion rheoleiddio:

- Pan fydd cymwysterau rheoleiddiedig y mae dysgwyr yn astudio ar eu cyfer yng Nghymru yn ddilys ac yn ddibynadwy a phan gânt eu dyfarnu'n gyson i safon briodol.
- Pan fydd cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru yn gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal i ddysgwyr.
- Pan fydd cymwysterau rheoleiddiedig a'r system gymwysterau yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol, yn enwedig o ran y budd hirdymor i Gymru a'i dysgwyr.
- Pan fydd rheoleiddio yn gymesur, yn dryloyw, yn gyson ac wedi'i dargedu, i gefnogi system gymwysterau sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.
- Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol i gyflwyno cymwysterau rheoleiddiedig cyson o ansawdd sicr ar gael ac yn hygyrch.
- Mae trefn lywodraethu briodol ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

Mae'r Cynllun hwn yn esbonio sut bydd Cymwysterau Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Datganiad o Ymrwymiad

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae Cymwysterau Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal ei fusnes a'i gyfathrebiadau cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 2) 2016 maes o law. Hyd hynny, mae Bwrdd a Gweithrediaeth Cymwysterau Cymru wedi penderfynu dangos eu hymrwymiad i'r Gymraeg drwy lunio a chyhoeddi Cynllun yn wirfoddol. Noda'r Cynllun hwn sut bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi egwyddor cydraddoldeb ar waith wrth gyflawni ei swyddogaethau a chyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y Cynllun hwn, golyga 'y cyhoedd' ein cynulleidfaoedd a'n rhanddeiliaid. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term hefyd yn cynnwys cyrff dyfarnu, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, a'n rhanddeiliaid yn y sector addysg, ac mewn llywodraeth leol a chenedlaethol.

Mae'r Cynllun wedi'i awdurdodi, ei gefnogi a'i gymeradwyo'n llawn gan Fwrdd a Gweithrediaeth Cymwysterau Cymru.

Trosolwg o'r Cynllun

Bwriad y Cynllun yw nodi a mesur camau gweithredu dros amser. Noda'r camau y mae'r sefydliad eisoes wedi'u cymryd i gyflawni ei ymrwymadau i'r Gymraeg, yn ogystal â'r rheini y bydd angen mwy o amser i'w cyflawni.

Yn benodol, mae'n gwneud y canlynol:

- mynegi popeth y byddwn yn ei wneud neu'n ei gyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg;
- nodi fframwaith monitro ar gyfer y cynllun;
- rhoi canllawiau i'r staff ynghylch sut byddwn yn gweithio gyda'r Gymraeg.

Gan gydnabod ein rôl fel rheoleiddiwr cyhoeddus yn arfer swyddogaethau statudol, mae ein cynllun yn disgrifio'r camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn annog, galluogi, hwyluso neu gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyflawni ein swyddogaethau.

Y Cynllun

Mae gan y Cynllun bedair elfen (neu 'feysydd ffocws'), fel y'u nodir yng nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r rhain yn dilyn penawdau allweddol Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 2) 2016, y mae disgwyl y bydd gofyn i ni gydymffurfio â nhw maes o law. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Darparu gwasanaeth
2. Llunio polisiau
3. Gweithrediadau mewnol
4. Gweinyddu a monitro'r Cynllun

Mae rhai o'r pedwar maes yn torri ar draws y sefydliad. Mae rhai ohonynt yn weithgareddau arbenigol ac mae timau penodol o fewn Cymwysterau Cymru yn gyfrifol amdanynt. Pan fyddwn yn ystyried y camau sydd i'w cymryd, byddwn yn nodi pa dîm fydd yn 'berchen ar' y meysydd gweithredu ac yn gyfrifol am eu cyflawni. Bwrdd Cymwysterau Cymru sy'n berchen ar y Cynllun cyffredinol a bydd y Bwrdd, ar y cyd â'r Weithrediaeth, yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymadau, ac yn ceisio gwneud gwelliannau lle bo'n bosibl ac yn briodol.

Darparu gwasanaeth - y rhyngwyneb cyhoeddus

Fel corff rheoleiddio, mae Cymwysterau Cymru yn darparu gwasanaethau i sefydliadau gan amlaf, yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Ein ffocws allanol yw rheoleiddio, er budd y cyhoedd, wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau eraill. Fodd bynnag, fel sefydliad yn y sector cyhoeddus, mae cyfathrebu effeithiol yn allweddol ar gyfer ein cydberthnasau gwaith â chydweithwyr mewn sefydliadau eraill, gyda

chyflogeion ac aelodau unigol o'r cyhoedd ar yr achlysuron prin pan fyddwn yn ymwneud â nhw. Hwn yw ffocws allweddol yr elfen hon o'n Cynllun.

Gohebiaeth ysgrifenedig

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Wrth ymdrin â gohebiaeth Gymraeg (llythyrau neu negeseuon e-bost), byddwn yn ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd angen ymateb. Yn y dyfodol, byddwn yn cofnodi dewis iaith unigolion ar ein cronfa ddata Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid. Byddwn yn dechrau gohebiaeth yn ddwyieithog pan fyddwn yn ansicr o ddewis iaith pobl. Rydym yn cyflwyno ein llofnodion e-bost a'n negeseuon allan o'r swyddfa yn ddwyieithog hefyd. Bydd y targedau ar gyfer ymateb i ohebiaeth yr un peth, p'un a ydynt yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Galwyr ffôn

Rydym yn croesawu galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg. Caff galwyr ffôn sy'n defnyddio ein rhifau cyhoeddus eu cyfarch yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn cynnig opsiynau Cymraeg a Saesneg. Os bydd y galwr am barhau â'r sgwrs yn Gymraeg, gall ddisgwyl cael ei drosglwyddo i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg os na fydd atebwr gwreiddiol yr alwad yn siarad Cymraeg.

Ymwelwyr â'r dderbynfa

Bydd ymwelwyr â'n derbynfa yn gweld arwydd yn eu gwahodd i sgwrsio yn Gymraeg, os mai honno yw eu dewis iaith, a gallant ddisgwyl i aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg fod ar gael i siarad â nhw.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth lawn i'r staff am ofynion yr elfen hon o'r Cynllun, a ymgorfforir yn y cynllun sefydlu i staff newydd;
- hyfforddi a chyfarwyddo staff ein derbynfa i ymateb yn briodol i ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg ac ymwelwyr sy'n siarad Saesneg;
- cadw ein rhestr o aelodau dwyieithog o'r staff yn gyfredol.

Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Caiff cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gennym eu hysbysebu a'u hyrwyddo'n ddwyieithog, gyda gwahoddiadau (boed yn electronig neu ar ffurf copi caled) yn cael eu hanfon drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn gofyn yn rhagweithiol i wahoddedigion/cynrychiolwyr a hoffent gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfarfod neu'r digwyddiad cyhoeddus. Os dywedir wrthym y bydd pobl yn bresennol

sydd am gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael lle bynnag y bydd yn ymarferol ac yn briodol.

Fel arfer, mae staff sy'n siarad Cymraeg ar gael mewn digwyddiadau cyhoeddus rydym yn mynd iddynt er mwyn siarad ag aelodau o'r cyhoedd y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg. Os byddwn yn cyhoeddi adroddiadau neu gofnodion digwyddiadau rydym wedi'u cynnal, bydd y rhain ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Er mwyn sicrhau gwasanaeth cyson, byddwn yn gwneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth lawn i'r staff sy'n mynd i ddigwyddiadau;
- mynnu bod aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn dangos mewn digwyddiadau eu bod yn siarad Cymraeg;
- annog cyfranogiad drwy gyfrwng y Gymraeg mewn digwyddiadau lle mae cyfieithiad ar gael drwy groesawu pobl yn Gymraeg a thynnu eu sylw at y cyfieithydd er mwyn eu hannog i'w ddefnyddio.

Cyhoeddusrwydd, cyhoeddiadau a hysbysiadau cyhoeddus

Bydd aelodau o'r cyhoedd neu gydweithwyr mewn sefydliadau allanol yn gallu darllen dogfennau sy'n ymwneud â Chymru ac y mae Cymwysterau Cymru yn eu cyhoeddi yn eu dewis iaith: Cymraeg neu Saesneg.

Parheir i lunio deunydd cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Efallai y bydd eithriadau i hyn lle na fwriedir i'r cyhoedd ddarllen adroddiad neu ran o adroddiad neu os bydd nifer y darllenwyr yn gyfyngedig iawn.

Bydd dogfennau a lunnir ar wahân ar gael ar yr un pryd. Os oes rhaid cyhoeddi dogfennau ar wahân, byddwn yn egluro bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall, a bydd cydraddoldeb rhwng y ddwy ddogfen o ran fformat, maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd. Bydd y dogfennau sydd ar gael ar ein gwefan i'w harddangos neu eu lawrlwytho ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac ar yr un pryd. Bydd dogfennau a gyhoeddir gan gyrff eraill sydd ar gael yn Saesneg yn unig yn parhau i fod ar gael ar ein gwefan os byddwn yn ystyried eu bod o ddiddordeb neu'n ddefnyddiol i'n rhanddeiliaid.

Caiff deunyddiau rydym yn eu cyflwyno mewn digwyddiadau cyhoeddus a hysbysiadau cyhoeddus eu cyhoeddi ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn:

- parhau â'r polisi y cyhoeddir y cyhoeddiadau rydym yn eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda rhagdybiaeth o blaid llunio dogfennau dwyieithog;
- parhau i ymgorffori'r gofynion hyn yn ein ffordd o weithio.

Cyfryngau cymdeithasol

Cyhoeddir negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddwn yn parhau i ymateb yn Gymraeg i unrhyw negeseuon rydym yn eu derbyn yn Gymraeg mewn ymateb i'n gohebiaeth.

Gwefan

Bydd gwefan Cymwysterau Cymru yn parhau i fod yn hollol ddwyieithog, gyda thudalennau Cymraeg a Saesneg â chyfarwyddiadau clir a hwylus i alluogi darllenwyr i newid o un iaith i'r llall. Gall dogfennau a gyhoeddir gan drydydd partïon ymddangos ar ein tudalennau Cymraeg a Saesneg am eu bod yn ddefnyddiol neu o ddiddordeb i'n cynulleidfaoedd, ond efallai na fyddant ar gael yn y ddwy iaith.

Pan fyddwn yn dylunio gwefannau newydd, microwefannau neu'n datblygu ein gwefan bresennol, byddwn yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n Cynllun ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Byddwn yn creu tudalen newydd, 'Ymrwymiad i'r Gymraeg', yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan, lle bydd copi o'n Cynllun Iaith Gymraeg ar gael i'w ddarllen a/neu ei lawrlwytho.

Byddwn yn:

- parhau i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu o safon uchel er mwyn sicrhau bod y testun a'r dogfennau a ddangosir ar y wefan yn gywir ac yn adlewyrchu ein harddull a'n llais;
- parhau i fonitro ein gwefan a cheisio adborth a rhoi gwelliannau ar waith lle y bo'n briodol;
- cael y wybodaeth ddiweddaraf am welliannau technolegol ac yn cynnal ein hymrwymiad na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ffurflenni

Bydd unrhyw ffurflenni a gweithdrefnau ar y wefan neu y gellir eu lawrlwytho ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a phan fyddant yn dod i law, ymdrinnir â nhw yn yr iaith a ddefnyddiwyd i'w cyflwyno. Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir ar ein gwefan yn

Gymraeg ac yn Saesneg yn parhau i fod ar gael ar yr un pryd. Trafodir ffurflenni cais am swyddi a grantiau mewn adrannau ar wahân o'r Cynllun hwn.

Hunaniaeth gorfforaethol

Mae enw, cyfeiriad a logo Cymwysterau Cymru yn ddwyieithog ac fe'i defnyddir yn ein holl gyhoeddiadau, ffurflenni, deunyddiau ysgrifennu, cyfathrebu electronig, cyflwyniadau, deunyddiau ar gyfer arddangosfeydd, marchnata a deunyddiau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd. Caiff y ddwy iaith yr un amlygrwydd o ran fformat, maint, ansawdd ac eglurder.

Byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

- monitro ein defnydd o'r hunaniaeth gorfforaethol a sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'i chanllawiau a gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.

Llunio polisiau - corfforaethol a rheoleiddiol

Polisiau corfforaethol

Mae gan ein polisiau corfforaethol ffocws mewnol ac maent yn llywio'r ffordd rydym yn gweithredu fel sefydliad. Pan fyddwn yn cymeradwyo polisi corfforaethol newydd neu'n adolygu polisi presennol, byddwn yn ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn y sefydliad.

Wrth geisio gwella sut rydym yn gweithredu fel sefydliad cynhwysol, byddwn yn cynnwys cyfeiriad at ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ein Hamcanion Cydraddoldeb, a thrwy hynny fonitro i ba raddau rydym yn cydymffurfio â'r Cynllun.

Byddwn yn:

- ystyried unrhyw effaith ar y Gymraeg pan fyddwn yn adolygu polisiau presennol neu'n creu rhai newydd;
- monitro a ydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal fel rhan o'n hamcanion Cydraddoldeb;
- cyfleu'r gofynion hyn i'r staff fel rhan o'r broses sefydlu ac yn rheolaidd drwy gydol y prosesau cyfathrebu mewnol.

Polisi rheoleiddiol

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, ac am ennyn hyder y cyhoedd yn

y rhain. Fel sefydliad, rydym yn adrodd am y ffordd y cyflawnir ei swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diffinnir ein pwerau a'n dyletswyddau fel rheoleiddiwr annibynnol yn ein deddfwriaeth, sy'n cadarnhau'r materion y dylem eu hystyried ac yn ein gorfodi i nodi ein polisiâu rheoleiddiol. Un o'r wyth mater rydym yn rhoi sylw dyledus iddynt yw "dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg".

Mae gennym Bolisi Iaith Gymraeg ar wahân sy'n esbonio ac yn llywio ein dull rheoleiddio. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg yn berthnasol i'n swyddogaeth reoleiddiol, penderfyniadau am yr ymchwil rydym yn ei chynnal a'r polisiâu rheoleiddiol rydym yn eu rhoi ar waith. Ar y llaw arall, nid yw ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cwmpasu'r agweddau hyn ar ein gwaith.

Mae Cymwysterau Cymru yn mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal ei fusnes yng Nghymru. Noda'r Cynllun hwn sut byddwn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith pan fyddwn yn ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru.

Gan ystyried sut y byddwn yn ymgysylltu ar bolisi rheoleiddiol, felly, byddwn yn gwneud y canlynol:

- ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a'u hannog i gyfrannu pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau mewn perthynas â'n swyddogaethau rheoleiddio. Pan fyddwn yn ymateb fel ymgynghorai i sefydliadau allanol, byddwn yn parhau i wneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â nodau'r cynllun, gan amlygu unrhyw bryderon o ran trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- cyhoeddi dogfennau polisi rheoleiddio yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- cynnwys ystyriaeth o'r goblygiadau i'r Gymraeg pan fyddwn yn creu polisiâu rheoleiddio newydd neu'n adolygu'r polisiâu presennol;
- monitro'r ffordd yr ymgysylltir â siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw brosesau ymgynghori er mwyn sicrhau y cânt eu cynrychioli a'u cynnwys lle y bo'n briodol.

Ymchwil

Pan fyddwn yn comisiynu ymchwil, bydd ein proses moeseg ymchwil yn ystyried ac yn rheoli unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg. Mae'r dogfennau a ddefnyddir i recriwtio ymatebwyr ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y gellir darparu cydsyniad ar sail gwybodaeth yn y naill iaith a'r llall, ac y gall siaradwyr Cymraeg a Saesneg gyfrannu'n llawn.

Cyhoeddir unrhyw adroddiadau ymchwil gennym, neu a lunnir ar ein rhan, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Efallai y bydd eithriadau i hyn lle na fwriedir i'r cyhoedd ddarllen adroddiad neu ran o adroddiad neu os bydd nifer y darllenwyr yn gyfyngedig iawn.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn esbonio gofynion y Cynllun hwn ym mhob nodyn briffio a ddarperir i gontractwyr a benodir i gynnal ymchwil ar ran Cymwysterau Cymru.

Byddwn yn:

- cynnwys gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg mewn nodiadau ymchwil a chontractau, fel y bo'n briodol.

Gweithrediadau mewnol

Recriwtio staff

Pan fyddwn yn recriwtio staff, byddwn yn parhau i ddilyn yr ymrwymadau rydym wedi'u gwneud i wneud y canlynol:

- asesu gofynion iaith Gymraeg (hanfodol, dymunol, angen ei dysgu neu nid oes ei hangen) unrhyw swydd sy'n dod yn wag cyn hysbysebu. Byddwn yn cadw cofnod o'r niferoedd ym mhob categori at ein dibenion monitro ein hunain;
- hysbysebu swyddi gwag yn Gymraeg ac yn Saesneg os bydd angen sgiliau Cymraeg ar gyfer y swydd. Pan fyddwn yn hysbysebu ar draws y DU neu mewn cyfnodolion proffesiynol, ni fyddwn yn cyhoeddi'r hysbyseb yn Gymraeg (er y bydd dogfennau recriwtio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar dudalen swyddi gwag ein gwefan);
- croesawu ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg;
- cynnig yr opsiwn o gynnal cyfweiliad yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg sy'n cyrraedd y rhestr fer, os bydd angen;
- darparu contract cyflogaeth yn Gymraeg i'r ymgeisydd llwyddiannus, ar gais.

Er mwyn cyflawni'r lefel hon o wasanaeth yn ein prosesau recriwtio, byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

- hyrwyddo'n helaeth y croesewir ceisiadau yn Gymraeg;
- monitro nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg.

Arferion penodi a chyflogi Adnoddau Dynol

Byddwn yn rhoi gwybod i aelodau o'r staff fod sawl proses gyflogaeth y gellir eu cynnal yn Gymraeg ar gais, ac os bydd aelod o'r staff yn gofyn am hyn, ni chaiff ei drin yn llai ffafriol na rhywun sy'n dewis defnyddio Saesneg.

Y prosesau yw:

- y prosesau disgyblu neu gwynion;
- cwyn gan aelod o'r staff, neu am aelod o'r staff;
- ymchwiliad chwythu'r chwiban.

Lle y bo'n briodol, efallai y bydd angen cynnwys cymrodeddwr allanol os nad oes unrhyw siaradwr Cymraeg cymwys neu ddigon annibynnol ar gael. Fodd bynnag, ni chaiff aelod o'r staff sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg mewn un o'r gweithdrefnau uchod ei drin yn llai ffafriol na rhywun sy'n dewis defnyddio Saesneg, a byddwn yn rhoi'r un amserlenni ar waith ar gyfer y prosesau a'r penderfyniadau, p'un a fydd y broses yn Gymraeg neu yn Saesneg. Oni bai fod y rheolwr llinell yn siarad Cymraeg, byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad yn Saesneg, er y gall adroddiad dilynol y cyfarfod fod yn Gymraeg, os bydd aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn gofyn am hynny. Byddwn yn sicrhau bod y staff a'u rheolwyr yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael i gynnal prosesau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Hyfforddiant a sgiliau

Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i'r staff gael hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol a hyfforddiant pellach am ddim. Byddwn yn adolygu'r cyfleoedd sydd ar gael i uwch-reolwyr gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rolau fel rheolwyr. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau ffurfiol.

Byddwn hefyd yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r staff er mwyn codi ymwybyddiaeth am y Gymraeg, ei hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru. Byddwn yn caffael hyfforddiant arall yn Gymraeg ac yn Saesneg os bydd ar gael, ar yr amod ei fod yn bodloni ein safonau ansawdd.

Byddwn yn parhau i gadw cofnod o nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad, yn seiliedig ar hunanasesiad blynyddol. Bob blwyddyn, byddwn yn hysbysu'r Bwrdd am nifer y siaradwyr Cymraeg, nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r staff ddysgu mwy am y Gymraeg a diwylliant Cymru, ac yn nodi hynny yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Yn ystod 2019, rydym yn bwriadu ychwanegu'r Cynllun Iaith Gymraeg at ein cynllun sefydlu, er mwyn codi ymwybyddiaeth cyflogeion newydd o'i ofynion a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ddysgu Cymraeg a dysgu mwy am hanes a diwylliant Cymru.

Yn fwy cyffredinol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- parhau i wneud y Gymraeg yn rhan o'n ffordd bob dydd o weithio;
- dod o hyd i gyfleoedd hyfforddi a fydd yn ein helpu i gyflawni'r elfen hon o'r Cynllun;

- parhau i annog y staff i fanteisio ar y cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg a chefnogi pobl i ryngweithio'n anffurfiol drwy'r iaith yn ystod y diwrnod gwaith.

Cyfleusterau

Mae ein hymrwymiad i hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yn ymestyn i bob arwydd a arddangosir ar safle ein swyddfa. Bydd yr arwyddion allanol rydym yn berchen arnynt yn parhau i fod yn ddwyieithog, gan ddangos ein hunaniaeth Gymraeg a Saesneg. Bydd yr arwyddion yn yr adeilad hefyd yn ddwyieithog. Bydd arwyddion dwyieithog yn rhoi'r un amlygrwydd i'r ddwy iaith o ran fformat, maint, ansawdd ac eglurder.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- sicrhau bod arwyddion newydd yn bodloni gofynion y cynllun wrth symud ymlaen.

Technoleg gwybodaeth

Rydym yn croesawu ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfathrebiadau electronig. Darperir llofnodion e-bost, teitlau swyddi a'n hunaniaeth gorfforaethol yn Gymraeg ac yn Saesneg fel rheol ar ein cyfrifiaduron. Rydym yn darparu negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog fel y gall holl aelodau'r staff eu hychwanegu at eu system e-bost.

Rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu dros amser er mwyn galluogi'r staff i weithio'n ddwyieithog. Ar gyfer unrhyw aelodau o'r staff sy'n ysgrifennu'n rheolaidd yn Gymraeg, byddwn yn parhau i ddarparu meddalwedd i wirio sillafu a gramadeg a rhyngwynebau Cymraeg os byddant ar gael, yn briodol ac yn angenrheidiol.

Caffael a chontractau

Pan fyddwn yn cyhoeddi hysbysiadau am gontractau (drwy GwerthwchiGymru) a gwahoddiadau i dendro (ac eithrio telerau ac amodau contractau), byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg os bydd rhan sylweddol o'r contract yn gofyn am sgiliau Cymraeg er mwyn darparu'r gwasanaeth, oni bai fod yn rhaid cyhoeddi'r hysbysiad yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Ni chaiff ymatebion Cymraeg i dendrau eu trin yn llai ffafriol na thendrau yn Saesneg a bydd y terfyn amser ar gyfer tendrau (gan gynnwys llunio rhestrau byr a phenderfyniadau i benodi) yr un peth ar gyfer ymatebion Cymraeg a Saesneg.

Rydym yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu effeithiol o safon uchel er mwyn bodloni gofynion y Cynllun ac yn sicrhau bod dogfennau a thestun sydd wedi'u cyfieithu yn gywir.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- benodi cyfieithwyr sy'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sydd wedi bodloni ein meini prawf sicrhau ansawdd yn ystod proses gaffael ffurfiol;
- rhoi cyfarwyddiadau i'r staff sy'n ymdrin â contractau a chaffael er mwyn iddynt fodloni gofynion y Cynllun;
- sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'n Cynllun Iaith Gymraeg a'n hymrwymiad i'r Gymraeg.

Grantiau

Mae Cymwysterau Cymru yn gweinyddu grantiau fel rhan o'i rôl fel y rheoleiddiwr ar gyfer cymwysterau yng Nghymru. Dyfernir y mwyafrif o'r grantiau i gyrrff dyfarnu i ddarparu cymwysterau yn Gymraeg a fyddai fel arall ar gael yn Saesneg yn unig. Dyfernir grantiau eraill er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran y ddarpariaeth Gymraeg a Saesneg ac ariannu'r gwaith o gyfieithu'r wybodaeth a ddarperir i ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith am gymwysterau sydd newydd eu diwygio.

Lle rydym yn cynnal cynlluniau grant cystadleuol, rydym yn sicrhau bod pecynnau cais am grant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol y gallant gyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Os byddwn yn cael cais am grant yn Gymraeg, byddwn yn ymateb i'r ymgeisydd yn Gymraeg ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ein penderfyniad yn Gymraeg. Nid ydym yn trin ceisiadau am grant yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau yn Saesneg, ac rydym yn defnyddio'r un terfynau amser wrth weinyddu grantiau, ym mha bynnag iaith a ddefnyddiwyd i'w cyflwyno.

Byddwn yn cynnal cysondeb ar draws y broses o gyflwyno grantiau drwy gynnwys gofynion y cynllun yn y broses o roi grantiau.

Gweinyddu a monitro'r Cynllun

Monitro

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf Cymwysterau Cymru gan ei Fwrdd ar 28 Mawrth 2019. Mae'r Bwrdd yn cadw perchnogaeth strategol o'r Cynllun a bydd yn ei adolygu'n flynyddol neu nes y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ein gorfodi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r cyfrifoldeb am weithredu a diweddarau'r Cynllun yn y cyfamser wedi'i ddirprwyo i'r Bwrdd Rheoli, gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Wasanaethau Cyllid a Chorfforaethol yn cynnal trosolwg ac yn rhoi gwybod am gynnydd i'r Bwrdd Rheoli.

Caiff y camau gweithredu a nodwyd eu hymgorffori yng nghynlluniau timau, a ymgorfforir yn eu tro yng Nghynllun Gweithredol y sefydliad, gyda'r Bwrdd Rheoli yn

monitro'r broses o'u cyflawni. Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yw'r swyddog monitro, gan gefnogi rheolwyr timau unigol, sicrhau bod camau gweithredu ar y trywydd iawn ac ymdrin ag unrhyw gwynion sy'n dod i law am y Cynllun neu'r broses o'i roi ar waith. Byddwn yn cynnwys cyfeiriad at y Cynllun yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Trefniadau mewnol

Rhoddir gwybod i'n staff am y Cynllun hwn gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu mewnol. Rydym yn cynnal sesiynau gwybodaeth a hyfforddiant, lle y bo'n briodol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofynion y Cynllun ac esbonio sut bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd. Rydym yn llunio arweiniad lle y bo angen er mwyn bod y staff yn gwybod sut i roi'r mesurau yn y Cynllun ar waith a pharatoi i drosglwyddo i'r Safonau maes o law. Ymgorfforir gofynion y Cynllun yn ein ffordd o weithio.

Adolygu'r Cynllun

Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu ac yn diweddarau'r Cynllun hwn bob blwyddyn. Byddwn yn llunio Cynllun nes y bydd Safonau'r Gymraeg yn ei ddisodli. Bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys adolygiad o nodau a champau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Os bydd newid yn ein swyddogaethau a'n meysydd cyfrifoldeb, byddwn yn adolygu'r Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

Cwynion

Rydym yn hyrwyddo gwybodaeth ar ein gwefan am sut i wneud cwyn i Cymwysterau Cymru am unrhyw fethiant i gydymffurfio â'n Cynllun neu gwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Rydym yn croesawu cwynion fel cyfle i wella ein gwasanaethau a'n perfformiad. Pan fyddwn yn cael cwynion, ymdrinnir â nhw yn unol â'n system gwynion bresennol. Ymdrinnir ag unrhyw gwynion ysgrifenedig rydym yn eu cael yn Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cadw cofnod o unrhyw gwynion rydym yn eu cael ac yn rhoi gwybod i'r Bwrdd amdanynt pan fyddant yn monitro'r Cynllun. Os cawn unrhyw gwynion, byddwn yn esbonio'n gryno sut y gwnaethom ymdrin â'r gŵyn a gafwyd, unrhyw gamau gweithredu rydym wedi'u cymryd i unioni'r sefyllfa, os oedd cyfiawnhad, a'r hyn rydym wedi ei ddysgu o unrhyw gamgymeriadau a wnaed.

Ymdrinnir â chwynion gan y canlynol:

Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial, Coedcernyw
Casnewydd NP10 8AR